



Y sefyllfa bresennol

Ffactorau sy'n effeithio ar
fuddiolwyr Adferiad

Atodiad 1

Ein Strategaeth 2025 – 2030

Mae Adferiad Recovery yn
elusen gofrestredig ac yn gwmni
cyfyngedig trwy warant

Adferiad Recovery is a
registered charity and company
limited by guarantee

Cyfeiriad cofrestredig: Tŷ Dafydd Alun, 36 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8LA Rhif Cofrestru: 2751104 Rhif Elusen: 1039386
Registered address: Tŷ Dafydd Alun, 36 Princes Drive, Colwyn Bay, LL29 8LA Registered Number: 2751104 Charity Number: 1039386

Ffactorau sy'n effeithio ar fuddiolwyr Adferiad

Amseroedd aros y GIG:

Cynyddodd nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn GIG Cymru o oddeutu 748,400 ym mis Mai 2023 i oddeutu 760,300 ym mis Awst 2023. Dyma'r chweched cynnydd yn olynol a'r ffigwr uchaf ar gofnod.

Amseroedd aros iechyd meddwl:

Mae cannoedd o bobl yng Nghymru yn aros dros flwyddyn i gael mynediad at therapïau seicolegol ar y GIG. Gosododd Llywodraeth Cymru darged y dylai plant a phobl ifanc sy'n atgyfeirio at lwybr niwroddatblygiadol Cymru gyfan fynychu apwyntiad asesu cyntaf o fewn 26 wythnos ar ôl atgyfeirio. Ym mis Mehefin 2023, roedd 67% o blant a phobl ifanc yn aros am asesiad niwroddatblygiadol ADHD neu ASD yng Nghymru wedi bod yn aros am 26 wythnos neu fwy.

Hunanladdiad:

Yn 2022, roedd 294 o hunanladdiadau wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae'r risg yn parhau i fod yn uwch ymhlith dynion (cyfradd hunanladdiad dynion = 19.6 fesul 100,000; cyfradd hunanladdiad menywod = 6 fesul 100,000).

Cyfrifoldebau gofalu:

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif bod 12% o boblogaeth Cymru yn ofalwyr di-dâl a gallai'r ffigur hwn gynyddu i 16% erbyn 2037. Mae gofalwyr di-dâl yn fwy tebyg i fod yn fenywod, yn hŷn, ac yn byw mewn cymunedau mwy difreintiedig.

Iechyd corfforol gwael:

Yn 2018, dywedodd 46.6% o oedolion yng Nghymru 16+ oed fod ganddynt salwch hirsefydlog. Yn yr un flwyddyn, dywedodd bron i 60% o oedolion 16+ oed eu bod dros bwysau neu'n ordew (BMI o 25+). Roedd gan 24% arall BMI o 30+.

Poblogaeth sy'n heneiddio:

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos bod 876,338 o bobl dros 60 oed yn byw yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y nifer hwn yn codi i 956,000 (30% o'r boblogaeth) erbyn 2026.

Ynysu cymdeithasol ac unigrwydd:

Dywedodd tua 12.45% o boblogaeth Cymru eu bod yn teimlo'n unig yn 2020, gydag effeithiau sylweddol ar iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn. Amcangyfrifir bod tua 236,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn byw ar eu pennau eu hunain, gan gyfrannu at fwy o unigrwydd a phroblemau iechyd meddwl cysylltiedig.

Yr argyfwng costau byw parhaus:

Yn 2019, roedd 13% o bobl yn byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol. Yn bryderus, yn 2021 – 2022, roedd 28% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

Digartrefedd:

Mae nifer cynyddol o bobl sy'n cysgu garw yng Nghymru - cofnodwyd 240 o bobl yn 2015, o'i gymharu â 405 yn 2019, ond mae'r ffigurau gwirioneddol presennol yn debygol o fod yn llawer uwch.

Anghydraddoldebau cynyddol:

Mae bwlch cynyddol mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Adeg geni, disgwyliad oes ar gyfartaledd i ddynion yng Nghymru yw 78.3, ond dim ond 61.4 yw disgwyliad oes iach (nifer y blynyddoedd ar gyfartaledd sy'n byw mewn iechyd cyffredinol da), gwahaniaeth o bron i 17 mlynedd. Disgwyliad oes i fenywod yng Nghymru yw 82.3, tra bod disgwyliad oes iach yn 62, gwahaniaeth o dros 20 mlynedd. Mae'r disgwyliad oes dynion a menywod uchaf yng Nghymru yn Sir Fynwy (80.3 ac 86.6 yn y drefn honno) ac mae'r isaf ym Mlaenau Gwent (75.7 a 78.9).

Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau:

Mae marwolaethau cyffuriau Cymru ar eu lefelau uchaf erioed, gyda marwolaethau o wenwyn cyffuriau wedi cynyddu 78% dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae angen mwy o ffocws ar strategaethau lleihau niwed ac ehangu mynediad at wasanaethau dadwenwyno i leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Niwed gamblo:

Yn 2018, nododd Arolwg Gamblo Problemus Cymru fod 52% o gyfranogwyr wedi gamblo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bod 3.6% neu oddeutu 113,000 o bobl wedi profi rhywfaint o niwed o'u gamblo. Mae angen cymorth parhaus i unigolion yr effeithir arnynt gan gamblo, gyda phryderon cynyddol am y croestoriad â materion iechyd meddwl eraill.

Allgáu digidol mewn oedolion hŷn:

Nid oes gan 31% o bobl dros 75 oed (95,069 o bobl) fynediad i'r rhyngrwyd gartref, gan gyfyngu ar eu gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol, gan gynnwys teleffeddygaeth ac opsiynau gofal o bell. Nid yw 33% o bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd (gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau llaw).

Heriau mewn cwmpas band eang gwledig:

Mae gwahaniaethau mewn seilwaith digidol rhwng ardaloedd gwledig a threfol yn rhwystro darparu gwasanaethau. Mae 9 allan o 22 sir yng Nghymru yn cael eu hystyried yn wledig, gan gyfrif am 35% o boblogaeth Cymru.

Cyflogaeth:

Yn 2019, nid oedd gan 8% o oedolion 18-64 oed unrhyw gymwysterau. Roedd 26.3% o bobl o oedran gweithio yn ddi-waith.

Ffactorau gwleidyddol a deddfwriaethol:

- Datganoli a newidiadau posibl i bolisiau Llywodraeth Cymru
- Newidiadau polisi ledled y DU sy'n effeithio ar Gymru
- Goblygiadau Brexit ar gyllid, gweithlu a rheoliadau
- Deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, a gofal cymdeithasol
- Cyfyngiadau cyllideb awdurdodau lleol a darparu gwasanaethau

Cyfeirnodau

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Diagnostic-and-Therapy-Services/waitingtimes-by-month>

<https://www.mind.org.uk/news-campaigns/news/hundreds-of-people-in-wales-wait-more-than-a-year-for-help-with-their-mental-health/>

<https://senedd.wales/media/rdsnhrh4/24-13-neurodevelopmental-services-in-wales.pdf>

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/suicideinenglandandwales>

<https://www.samaritans.org/wales/about-samaritans/research-policy/suicide-facts-and-figures/latest-suicide-data/>

<https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2024/03/Understanding-Wales-ageing-population-March-24-.pdf>

<https://www.data.cymru/dashboards/wellbeing>

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/bulletins/lifeexpectancyforlocalareasoftheuk/between2001to2003and2020to202>

<https://phw.nhs.wales/news/drug-deaths-at-their-highest-ever-levels-in-wales/harm-reduction-database-wales-drug-related-mortality-annual-report-2018-19/>

<https://www.gamblingcommission.gov.uk/statistics-and-research/publication/levels-of-problem-gambling-in-wales>

<https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf>



info@adferiad.org
01792 816600

www.adferiad.org

Mae Adferiad Recovery yn
elusen gofrestredig ac yn gwmni
cyfyngedig trwy warant

Adferiad Recovery is a
registered charity and company
limited by guarantee

Cyfeiriad cofrestredig: Tŷ Dafydd Alun, 36 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8LA Rhif Cofrestru: 2751104 Rhif Elusen: 1039386
Registered address: Tŷ Dafydd Alun, 36 Princes Drive, Colwyn Bay, LL29 8LA Registered Number: 2751104 Charity Number: 1039386